**Y PWYLLGOR DEDDFAU:**

**ADRODDIAD I’R CYNULLIAD AR REOLIADAU AWDURDODAU LLEOL (CYFRIFO SYLFAEN TRETH GYNGOR) (CYMRU) (DIWYGIO) 1999**

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

Nid yw’r Pwyllgor Deddfau wedi nodi unrhyw faterion o dan Reol Sefydlog 11.5 y mae angen eu tynnu yn arbennig at sylw’r Cynulliad. Er hynny, fe ddylai’r Cynulliad nodi’r sylwadau a ganlyn:

**<u>Sylwadau</u>**

Mae Rheoliad 2(2) yn diwygio Rheoliad 5(2) o’r Prif Reoliadau. Yn sgil archwiliadau cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor Deddfau ar y ddeddfwriaeth, dylai’r Cynulliad wybod fod cromfach wedi’i gamleoli a defnydd amhriodol ar y gair "and" wedi’u nodi. Effaith hyn oedd nad oedd y paragraff olaf yn ddealladwy i ddechrau a’i fod yn anghywir o ran y gyfraith. Er hynny, penderfynwyd y gall y diffyg gael ei gywiro yn y copi printiedig terfynol. Bydd paragraff olaf Rheoliad 2(2) yn awr yn darllen fel hyn:

"……where HH is the authority’s estimate of the number of dwellings listed in band A (excluding dwellings which are to be treated as listed in that band by virtue of the provisions of Regulation 4(3) where the person who is liable to pay council tax in respect of the dwelling is liable to pay a reduced amount pursuant to the Council Tax (Reductions for Disability) Regulations 1992)."

Fel mân fater technegol, hoffai’r Pwyllgor nodi hefyd mai "expression" mewn gwirionedd yw’r "formula" HH/6 y cyfeirir ati yn Rheoliad 5(2), a defnyddio’r derminoleg fathemategol gywir. Cydnabyddir na ddylai hyn ddwyn unrhyw effaith ar y dehongliad cyfreithiol.

Dylai troednodyn gael ei gynnwys yn y cymal Llofnodi i roi rhif pennod Deddf Llywodraeth Cymru.

**<u>Cefndir</u>**

Mae swm y dreth gyngor sy’n daladwy bob blwyddyn i awdurdod leol yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio fformwla a bennir o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

Cyfeirir at un o’r ffactorau a ddefnyddir wrth gyfrifo fel y "sylfaen treth gyngor". Mae’r sylfaen treth gyngor hefyd yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio fformwla sydd yn yr achos hwn wedi’i nodi yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) 1995 ("y Prif Reoliadau").

Mae’r fformwla olaf hon yn cael ei chyfrifo yn rhannol drwy gyfeirio at nifer yr anheddau sy’n derbyn disgownt treth gyngor.

Mae pobl anabl yn derbyn disgownt yn rhinwedd adran 13 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Cymerir y disgowntiau hyn i ystyriaeth wrth gyfrifo’r sylfaen treth gyngor.

Mae’r rheoliadau a wnaed o dan a.13 o Ddeddf 1992 yn darparu ar gyfer disgowntiau drwy gymryd bod annedd ac ynddi berson anabl yn cael ei thrin fel petai yn y band prisio nesaf i lawr (e.e. band prisio C yn cael ei drin fel band prisio B etc). Ym mis Mawrth 1999, diwygiwyd y rheoliadau hyn gan y Swyddfa Gymreig (ac Adran yr Amgylchedd, Diwydiant a’r Rhanbarthau). O Ebrill 2000 ymlaen mae’r rheoliadau diwygiedig yn darparu ar gyfer rhoi gostyngiad i anheddau ym mand prisio A am y tro cyntaf fel bod y bil treth gyngor yn 5/9fed o fil band prisio D yn hytrach na 6/9fed fel sy’n arferol.

Pan wnaed y rheoliadau diwygio hyn, anghofiwyd yr angen am welliant canlyniadol i’r Prif Reoliadau. Yr oedd y Prif Reoliadau wedi’u drafftio i ymdrin yn unig ag amgylchiadau ble mae annedd yn cael ei thrin fel petai mewn band prisio is na’r band y mae ynddo ar y rhestr. Mae hyn yn gweithio ar gyfer bandiau prisio B i H ond nid ar gyfer Band A, gan nad oes band ar gael o dan Fand A.

Pwrpas y Rheoliadau sydd gerbron y Cynulliad yn awr felly yw diwygio’r Prif Reoliadau i sicrhau bod y sylfaen treth gyngor yn cael ei gyfrifo’n gywir. Os na ddiwygir y Prif Reoliadau, bydd cynghorau yn cyfrifo sylfeini treth gyngor uwch nag y dylent. Gan nad yw hyn yn adlewyrchu’r sefyllfa yn gywir, fe fyddant i bob pwrpas yn colli swm bach o refeniw’r dreth gyngor.

Bydd y Cynulliad yn nodi bod y rheoliadau wedi’u gwneud o dan y Drefn Frys. Mae’r Ysgrifennydd Cynulliad wedi darparu memorandwm esboniadol ond yn anffodus nid yw hwnnw’’n cyfiawnhau’r brys.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor Deddfau na sylweddolwyd bod angen gwneud diwygiadau canlyniadol tan ganol mis Hydref. Mae’r Rheoliadau yn darparu bod rhaid i’r Awdurdodau Lleol gyfrifo’u sylfaen treth gyngor erbyn 1 Tachwedd bob blwyddyn (a rhaid ymgynghori gydag awdurdodau eraill ac awdurdodau heddlu rhwng 1 Tachwedd a 31 Rhagfyr ynghylch y sefyllfa ar 31 Hydref yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol berthnasol).

Gan hynny yr oedd angen i’r rheoliadau ddod i rym ar 31 Hydref 1999 ac o ganlyniad

defnyddiwyd y drefn frys.

-

-

**M GERMAN**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau